

# Tyfu Canolbarth Cymru Tachwedd 2024

Croeso i rifyn mis Tachwedd o lythyr newyddion Tyfu Canolbarth Cymru!

Wrth i dymor yr hydref fynd rhagddo, mae’n bleser gennym gyflwyno’r newyddion diweddaraf a’r straeon diweddaraf am lwyddiant i chi o bob rhan o’r canolbarth. Y mis hwn, rydym yn rhoi sylw i’r cyflawniadau nodedig a oedd yn bosibl drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac yn sôn am brosiectau ysbrydoledig sy’n meithrin twf cymunedol, yn cefnogi busnesau lleol ac yn gwella sgiliau ar hyd a lled Ceredigion a Phowys.

Yn y rhifyn hwn, mae yna gyfle i ddod i adnabod Natalie Chambers, Rheolwr Rhanbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, yn well; erthygl am Wobrau Busnes Powys a gyflwynwyd yn ddiweddar; cyfle na ddylech ei golli os ydych yn awyddus i ehangu eich busnes; a llawer mwy.

Yn helpu i dyfu cyfleoedd yn y canolbarth,

*Tîm Tyfu Canolbarth Cymru*

[Clawr: Yn rhan o’r prosiect Caru Powys, a grybwyllir yn ein herthygl am y Gronfa Ffyniant Gyffredin y mis hwn, cynhaliwyd ymgyrch glanhau’r gymuned ar ystâd Treowen yn y Drenewydd, a oedd yn cynnwys plant o Ysgol Gynradd Treowen.]

## Cynnwys


- Effaith y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y canolbarth
- Ydych chi'n bwriadu tyfu eich busnes?
- Cwrdd â'r Tîm - Natalie Chambers, Rheolwr Rhanbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
- Newyddion eraill - Rownd newydd o gyllid gan Fagloriaeth Technoleg Bwyd-Amaeth / Gwobrau Busnes Powys / Yr alwad olaf am enwebiadau ar gyfer gwobrau cymunedol a busnes Ceredigion / Llefydd yng Nghanolbarth Cymru yn dechrau gweld manteision band eang ffeibr llawn


## Effaith y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y canolbarth

Ni sy'n rheoli Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn y Canolbarth er mwyn cyflawni ein Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r timau cyflawni lleol yng Nghyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys i sicrhau bod gennym gymysgedd eang o brosiectau a fydd yn ein helpu i wneud yn fawr o'r cyfleoedd a mynd i'r afael â'r heriau yn y rhanbarth.

Wrth i ni groesawu tymor yr hydref, rydym yn falch o allu rhoi sylw i'r prosiectau trawsnewidiol a ariannwyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar draws y canolbarth. Mae'r rhifyn hwn o'n llythyr newyddion yn sôn am yr astudiaethau achos nodedig o Geredigion a Phowys y mae pob un ohonynt yn amlygu dylanwad cadarnhaol mentrau lleol ar ein cymunedau ac ar fusnesau a'r amgylchedd.


O lwyddiant aruthrol Gŵyl Grefft Cymru yng Nghastell Aberteifi i'r fenter Caru Powys sy'n grymuso pobl ac sy'n hybu balchder cymunedol a chyfrifoldeb amgylcheddol, mae'r prosiectau dan sylw'n amlygu hanfod cydweithio ac arloesi. Mae ein ffocws ar feysydd amrywiol megis cefnogi busnesau lleol, gwella sgiliau a hybu llesiant cymunedol yn pwysleisio ymrwymiad ein rhanbarth i feithrin twf cynaliadwy a chydnerthedd.

Dewch gyda ni i archwilio sut y mae'r mentrau hyn yn gwneud gwahaniaeth go iawn ac yn adlewyrchu creadigrwydd, penderfynoldeb ac ysbryd pobl, busnesau, sefydliadau a mudiadau'r canolbarth.

Ers i Gynllun Buddsoddi Rhanbarthol Canolbarth Cymru gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2022, mae cyfanswm o 166* o brosiectau yn y rhanbarth wedi cael cyllid. Mae'r prosiectau hyn yn werth swm anhygoel o £40 miliwn.

*Mae mwy o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo dan y cynlluniau grant cyffredinol megis Cynnal y Cardi yng Ngheredigion a Gwneud Gwahaniaeth ym Mhowys.

Mae rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i rhannu yn 4 maes blaenoriaeth (data o mis Hydref 2024):




## Blaenoriaeth fuddsoddi: Cymunedau a Lle

### CEREDIGION: Roedd Gŵyl Grefft Cymru yn llwyddiant ysgubol wrth i dros 3,500 o bobl fynychu'r digwyddiad yng Nghastell Aberteifi

Roedd Gŵyl Grefft Cymru yng Nghastell Aberteifi ddechrau mis Medi, a gynhaliwyd am y tro cyntaf erioed ac a ddenodd dros 3,500 o ymwelwyr, yn llwyddiant aruthrol. Cafodd yr ŵyl ei threfnu gan Sarah James MBE a Nina Fox, a llwyddodd i ragori ar bob disgwyliad. Roedd 80 o grefftwyr proffesiynol yn bresennol yn yr ŵyl o bob cwr o'r DU, ac roedd llawer ohonynt yn dod o ganolbarth a gorllewin Cymru. Roedd y gwaith crefft a oedd i'w weld yn cynnwys gemwaith, crochenwaith, tecstilau, dodrefn a gwaith gwydr, ac roedd y crefftwyr yno'n gwerthu eu cynnyrch unigryw a wnaed â llaw yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

Cafodd yr ŵyl, a oedd yn fenter ddielw, ei hariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a weinyddir gan Gynnal y Cardi ar ran Cyngor Sir Ceredigion, a chafwyd cymorth hefyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Ymddiriedolaeth Ysgoloriaethau'r Frenhines Elizabeth.

Yn ogystal â'r stondinau gwaith crefft, bu dros 400 o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau crefft am ddim dros y penwythnos, a arweiniwyd gan sefydliadau megis Amgueddfa Cymru, Llantarnam Grange a Theatr Byd Bach. Cafodd y sawl a oedd yn bresennol gyfle hefyd i fwynhau perfformiadau byw gan artistiaid a grwpiau a oedd yn cynnwys Hijinx, Kitsch 'n' Sync, Mari Mathias, Lowri Evans, Disclaimers a Band Pres Aberystwyth.

Roedd yr ŵyl yn cynnwys amrywiaeth eang o weithdai, arddangosiadau a dosbarthiadau meistr gan grefftwyr enwog megis Ashraf Hanna sy'n seramegydd y mae ei waith wedi'i arddangos yn rhyngwladol; Rosa Harradine sy'n creu ysgubau yn Sir Gaerfyrddin; Michelle Mateo sy'n gweithio gyda phren heb ei sychu; ac Ann Catrin Evans sy'n ddylunydd gemwaith o fri. Roedd y rhaglen amrywiol hon yn cynnig cyfle i'r sawl a oedd yn bresennol ddysgu'n uniongyrchol oddi wrth rai o grefftwyr gorau'r DU.

Cafodd Gŵyl Grefft Cymru £30,000 o gyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a chafodd ei threfnu ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion, Cyngor Celfyddydau Cymru ac Ymddiriedolaeth Ysgoloriaethau'r Frenhines Elizabeth, gyda nifer o gefnogwyr a phartneriaid lleol yn cyfrannu i'w llwyddiant.

I gael gwybodaeth am yr Ŵyl Grefft, ewch i: [www.craftfestival.co.uk](http://www.craftfestival.co.uk)




*1 - Stondinau gan gynhyrchwyr lleol yn yr Ŵyl Grefft yn Aberteifi*




*2 - Stondinau gan gynhyrchwyr lleol yn yr Ŵyl Grefft yn Aberteifi*

## POWYS: Caru Powys – cydweithrediad rhwng Cadwch Gymru'n Daclus a Chyngor Sir Powys

Nod Caru Powys oedd gwella'r amgylchedd ar gyfer pobl a bywyd gwyllt, ac roedd yn adeiladu ar bartneriaeth a oedd yn bodoli'n barod rhwng y ddau sefydliad yn rhan o'r prosiect Caru Cymru.

"Mae Caru Powys yn galluogi cymunedau lleol i ymfalchïo yn eu hamgylchedd lleol, gweithredu yn ei gylch a chymryd cyfrifoldeb am ei ansawdd, ac mae'n darparu ystod o gyfleoedd i bobl wirfoddoli'n ymarferol," meddai Jodie Griffith sy'n gweithio fel Swyddog Prosiect Powys gyda Cadwch Gymru'n Daclus. "Mae hefyd yn cynorthwyo cynlluniau cadwraeth ac yn gwella bioamrywiaeth."

Roedd gwaith y prosiect yn cynnwys drafftio cynllun gweithredu ynghylch Ansawdd yr Amgylchedd Lleol, cynnal arolygon sbwriel a chynnal ystod o ymgyrchoedd glanhau a newid ymddygiad mewn gwahanol amgylcheddau a chymunedau. At hynny, bu'n cynnal digwyddiadau ac yn sefydlu cynlluniau er mwyn annog pobl i ailddefnyddio deunyddiau a'u haddasu i ddibenion gwahanol a'u hannog i rannu offer a chyfarpar.

Mae gan Bowys 12 o ganolfannau casglu sbwriel ffurfiol a thair o ganolfannau galw heibio anffurfiol, sydd wedi cael cymorth drwy'r prosiect ac sy'n darparu pecynnau casglu sbwriel, bagiau, hyfforddiant a chyngor.

Yn ystod blwyddyn gyntaf Caru Powys, cafodd y pecynnau eu benthyca 136 o weithiau a bu 1,357 o wirfoddolwyr yn ymwneud â chasglu sbwriel.

Hyd yn hyn, mae tîm Caru Powys wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â 78 o wahanol grwpiau, sefydliadau, mudiadau a busnesau ac wedi bod yn eu cynorthwyo. Mae hefyd wedi cyflawni dau ddarn o gelf gymunedol allan o dri darn arfaethedig.

**Ystadegau Caru Powys:**

• Gwelliannau a gwblhawyd i gymdogaethau – 182.

• Digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogwyd – 1,800.

• Cyfleoedd i wirfoddoli a gefnogwyd – 174.

Cafodd Caru Powys £115,929 o gyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar gyfer 2023-25.

I gael rhagor o wybodaeth am becynnau casglu sbwriel Caru Powys ar gyfer gwirfoddolwyr, ewch i: [https://cy.powys.gov.uk/article/8029/Pecyn-codi-sbwriel](https://cy.powys.gov.uk/article/8029/Pecyn-codi-sbwriel)



*3 - Ymgyrch glanhau'r gymuned ar ystâd Treowen yn y Drenewydd, a oedd yn cynnwys plant o Ysgol Gynradd Treowen.*






## Blaenoriaeth fuddsoddi: Cefnogi Busnesau Lleol

## CEREDIGION: Llwyddiant busnesau bach yng ngorllewin Cymru – sut y mae Cynnal y Cardi ac Antur Cymru yn grymuso twf lleol

Mae busnesau bach yn y gorllewin yn ffynnu, diolch i gymorth gan Antur Cymru, sef asiantaeth fenter sydd wedi eu helpu i gael grantiau o Gronfa Cynnal y Cardi. Mae'r gronfa honno, a ddarperir gan Gyngor Sir Ceredigion drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, wedi bod yn allweddol i lwyddiant un busnes lleol, sef Brodwaith Tysul.

Gwnaeth Abby Reid, perchennog Brodwaith Tysul, elwa o Gronfa Cynnal y Cardi drwy ehangu ei busnes brodwaith, a bu'n gweithio ar adfywio'r Stryd Fawr yn Llandysul. "Antur Cymru sydd wedi bod yn fy annog ac fy nysgu i fireinio'r ffordd rwy'n gwneud pethau," meddai Abby.

Mae Cronfa Cynnal y Cardi yn canolbwyntio ar atebion cynaliadwy i heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Ngheredigion. Mae'n hybu seilwaith cymunedau a chymdogaethau, seilwaith digidol, gwaith meithrin capasiti, a mwy.

Erbyn hyn mae busnesau lleol, gydag arweiniad gan Antur Cymru, mewn sefyllfa well i allu tyfu a llwyddo mewn amgylchedd heriol ar ôl y pandemig.

Cafodd Tîm Cymorth Busnes y De Antur Cymru £352,008 o gyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

I gael gwybod mwy am sut y mae Antur Cymru yn cefnogi cymunedau a busnesau gwledig, ewch i: [https://anturcymru.org.uk/cy/](https://anturcymru.org.uk/cy/)



*4 - Abby Reid, perchennog Brodwaith Tysul*

### POWYS: Adfywio'r sector digwyddiadau ym Mhowys – sut y mae Rhwydwaith Digwyddiadau Powys yn rhoi hwb i adferiad ar ôl y pandemig

Mae Datblygu Rhwydwaith Digwyddiadau Powys yn brosiect a luniwyd gan Wasanaeth Economi a Hinsawdd Cyngor Sir Powys i gefnogi'r sector digwyddiadau a'i helpu i ddod dros y pandemig Covid-19.

Mae wedi bod yn darparu cyfleoedd i rwydweithio er mwyn helpu trefnwyr i rannu arfer gorau. Mae cynrychiolwyr o 44 o wahanol ddigwyddiadau wedi bod yn cymryd rhan, ac mor belled mae 20 ohonynt wedi defnyddio cyllid i dalu am hyfforddiant.

Mae gwaith marchnata wedi'i wneud ar eu rhan ac maent wedi cael mynediad i seminarau ar-lein ynglŷn â'r ffyrdd gorau o hyrwyddo eu gweithgareddau.

"Ein her fwyaf, bob blwyddyn, yw lledaenu'r neges am ein cynyrchiadau," meddai Katy Sinnadurai, Cyfarwyddwr Artistig Bale Gŵyl Aberhonddu. "Roedd cael help i wneud hynny'n apelio yn fawr atom. Rydym am roi gwybod i fwy o bobl bod cynyrchiadau bale mawr, o faint y byddech yn ei weld mewn dinas fel rheol, yn digwydd yn Theatr Brycheiniog yn Aberhonddu."

Roedd Gŵyl Llanandras yn ddigwyddiad arall a fanteisiodd ar y cymorth a oedd ar gael, ac meddai Alison Giles, Cynhyrchydd yr Ŵyl: "Mae Rhwydwaith Digwyddiadau Powys wedi ein galluogi i fod mewn cysylltiad â'n hawdurdod lleol mewn modd nad oedd yn bosibl am flynyddoedd lawer. Mae wedi ein helpu i deimlo ein bod yn ymwneud â llunio dyfodol yr

ardal a gweld Powys, gobeithio, yn cael ei chydnabod yn well fel sir sy'n llawn creadigrwydd a diwylliant.

"Rydym wir yn croesawu'r fenter ac yn edrych ymlaen at adeiladu ar y cysylltiadau â Chyngor Sir Powys a sefydliadau creadigol eraill, y mae'r fenter wedi ein helpu i'w creu."

Cafodd Datblygu Rhwydwaith Digwyddiadau Powys £100,000 o gyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar gyfer 2023-25.

Ewch i [Digwyddiadau Powys – Cyngor Sir Powys] i gael gwybodaeth am y prosiect digwyddiadau, rhwydweithio a hyfforddiant neu i gofrestru eich digwyddiad.



*5 - Cynhyrchiad Bale Gŵyl Aberhonddu o Act 2 Swan Lake yn gynharach eleni*



*6 - Cyngerdd Gŵyl Llanandras*

## Blaenoriaeth fuddsoddi: Pobl a Sgiliau

## CEREDIGION: Sicrhau Llwyddiant – Prosiect AnTir Ceredigion

Mae'r prosiect hwn wedi galluogi Tir Coed i ddarparu cyrsiau sgiliau'n ymwneud â choetir, byd natur, treftadaeth a thyfu bwyd, sesiynau blasu a chyfleoedd i wirfoddoli ar draws Ceredigion.

Mae'r ddarpariaeth yn adeiladu ar lwyddiant y prosiect peilot Dichonoldeb AnTir yng Ngheredigion, a ariannwyd drwy Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU yn ystod 2021, ac mae'n gallu cynnig sgiliau penodol i weithwyr cyflogedig yn ogystal â chyfleoedd dysgu achrededig a phrofiad sy'n berthnasol i swyddi gwyrdd.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys gwasanaeth mentora un i un, cyngor ac arweiniad ac mae'n hybu ffordd o symud ymlaen, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, tuag at fwy o ymgysylltu economaidd a chymunedol.

Mae'r gwaith ymarferol a gyflawnwyd yn ystod Prosiect AnTir Ceredigion yn gwella mannau cymunedol a bioamrywiaeth er budd pawb.

Meddai Cath Seymour, Cyfarwyddwr Gweithrediadau: "Mae'r cyllid wedi bod yn newyddion gwych ar gyfer dyfodol Tir Coed yng Ngheredigion. Mae'n golygu y gallwn barhau i weithredu'r hyn a ddysgwyd o gamau ymchwil a datblygu ein prosiect Dichonoldeb AnTir, parhau i gynorthwyo pobl ddifreintiedig, cynnig hyfforddiant mwy penodol i'r sawl sy'n dyheu am symud ymlaen i swyddi yn yr awyr agored neu swyddi ym maes gwirfoddoli, a gwella mannau cymunedol er lles pawb. Mae'n rhoi i ni'r adnoddau i allu chwarae ein rhan fach ni wrth ymateb i'r prif heriau sy'n wynebu pobl Ceredigion, a helpu cymunedau lleol i fod yn fwy cydnerth."

Os hoffech gael gwybod mwy am Brosiect AnTir Ceredigion a chael gwybod sut mae cymryd rhan, anfonwch ebost i: info@tircoed.org.uk.

Cafodd Prosiect AnTir Ceredigion £172,056 oddi wrth Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gyda chymorth gan Gyngor Sir Ceredigion.



*7 - Prosiect AnTir*

## POWYS: Ar ben ei digon yn dilyn llwyddiant ar gwrs gyrru

Yn ddiweddar, mae Seren Cook sy'n 16 oed ac sy'n dod o Lanfair-ym-Muallt ym Mhowys wedi manteisio ar y rhaglen AgriStart, gan lwyddo i ddilyn cwrs undydd ymarferol rhwng ei hastudiaethau mewn coleg chweched dosbarth.

Er bod nifer o'r cyrsiau hyfforddiant yn apelio ati, penderfynodd Seren ddechrau ar ei siwrnai o ran hyfforddiant achrededig, dan raglen AgriStart a gaiff ei rhedeg gan Lantra Cymru, drwy ddilyn cwrs gyrru cerbydau sy'n addas i bob tir, a gyflwynwyd gan Wasanaethau Jimmy Hughes.

Roedd y cwrs yn un o lawer a gynigir i drigolion Powys nad ydynt o gefndir ffermio, ac roeddent yn amrywio o gyrsiau rheoli coetir a rheoli cnofilod i gyrsiau'n ymwneud â chadwraeth a chynaliadwyedd.

Caiff prosiect rhaglen AgriStart ei ariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gyda chymorth gan Gyngor Sir Powys.

Caiff yr holl gyrsiau a gynigir gan AgriStart eu cyflwyno drwy Rwydwaith Gwobrau dibynadwy Lantra, gyda Gwasanaethau Jimmy Hughes yn arbenigwyr ar ddarparu cyrsiau hyfforddiant o'r math hwn yn y sector diwydiannau'r tir.

Er nad oes llawer o amser wedi pasio ers iddi gwblhau'r cwrs, mae Seren yn gweld y manteision yn barod. Meddai: "Rwy'n bendant yn fwy hyderus yn awr wrth wneud amrywiaeth o bethau ar gerbydau sy'n addas i bob tir – o dynnu llwythi trwm i yrru ar dir mwy heriol. Roeddwn yn deall i raddau'n barod sut mae gyrru beic cwad, ond mae'r cwrs hwn yn bendant wedi gwella fy sgiliau, wedi sicrhau fy mod yn fwy diogel wrth ddefnyddio cerbydau sy'n addas i bob tir, ac wedi sicrhau fy mod wedi fy achredu rhag ofn y bydd angen i fi ddefnyddio'r sgìl rywbryd mewn amgylchedd gwaith yn y dyfodol."

Roedd y sawl a oedd yn bresennol ar y diwrnod yn bobl o bob oed a oedd ag amrywiaeth o brofiad a gallu, ac roedd y gwaith dysgu'n cynnwys theori ac elfen ymarferol. Mae rhaglen AgriStart yn canolbwyntio'n benodol ar bobl nad ydynt o gefndir ffermio, felly roedd y cyrsiau hefyd yn llwybr i waith yn niwydiannau'r tir ar gyfer y sawl a oedd yn bresennol. Mae gwir angen achredu'r sgiliau allweddol hynny yn y sector.

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus, mae Seren wedi rhoi ei bryd ar gwblhau cyrsiau eraill rhad ac am ddim AgriStart cyn diwedd y rhaglen yn 2024, ac mae'n bendant "yn annog pobl eraill i fanteisio ar y pecyn hwn o gymorth ar gyfer y sawl sy'n byw ym Mhowys."

I weld y cyrsiau a gynigir a chysylltu â'r tîm, ewch i [www.agristart.cymru](http://www.agristart.cymru)

Cafodd prosiect AgriStart £155,000 o gyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar gyfer 2023-25.



*8 - Seren Cook yn gwella ei sgiliau gyrru cerbydau sy'n addas i bob tir, yn ystod y cwrs.*

## Blaenoriaeth fuddsoddi: Lluosi (sgiliau rhifedd oedolion)

## CEREDIGION: Tyfu Meddyliau a Sgiliau – Sut y mae prosiect garddio yng Ngheredigion yn meithrin rhifedd a llesiant

Mae rhaglen ddysgu gymunedol yng Ngheredigion yn helpu oedolion i ddatblygu sgiliau rhifedd drwy brosiect garddio.

Mae Dysgu Bro Ceredigion wedi ymuno ag Ysbyty Dydd Gorwelion yn Aberystwyth i gynnig y sesiynau hyn sy'n cael eu cynnal o fis Chwefror tan fis Tachwedd bob blwyddyn.

Mae'r grŵp garddio, sy'n cwrdd bob wythnos, yn cynnwys staff a chleientiaid yr ysbyty mewn gweithgareddau megis trin pridd, plannu a chynaeafu. Mae'r prosiect nid yn unig yn meithrin cysylltiad â byd natur ond hefyd yn cynnig manteision pwysig o ran iechyd meddwl, sy'n cynnwys hwyliau gwell, llai o straen a chyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol.

Mae'r fenter yn rhan o Luosi, sef prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU sy'n ceisio gwella sgiliau rhifedd oedolion.

Mae Liz Porter, un o diwtoriaid Lluosi Dysgu Bro, yn integreiddio mathemateg mewn tasgau garddio, er enghraifft mesur, cynllunio a chyfrifo costau. Mae rhai o'r cyfranogwyr hefyd yn gweithio tuag at ennill cymhwyster achrededig mewn rhifedd gan Agored Cymru.

Meddai un aelod o'r grŵp: "I fi, mae dod i'r grŵp garddio wedi bod o fudd go iawn i fy iechyd meddwl, ac rwy'n mwynhau bod allan yn yr awyr agored, yn cymdeithasu â phobl eraill ac yn dysgu sgiliau newydd."

Nododd Porter fod y cyfranogwyr wedi diweddaru eu sgiliau rhifedd yn llwyddiannus ac wedi cynorthwyo ei gilydd i gyflawni eu nodau.

I gael rhagor o wybodaeth neu gael mynediad i gymorth gyda rhifedd, gall unigolion gysylltu â thîm Lluosi Dysgu Bro yma: [admin@dysgubro.org.uk](mailto:admin@dysgubro.org.uk)

Cafodd Tîm Gydol Oes Sgiliau Allweddol Lluosi £866,863 o gyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.



*9 - Gardd Ysbyty Dydd Gorwelion*

### POWYS: Nifer i Fyny! Grymuso rhieni ym Mhowys â sgiliau rhifedd ar gyfer bywyd a busnes

Aeth Stori Powys, sy’n rhan o Wasanaethau Diwylliannol Cyngor Sir Powys, ati i lansio’r fenter ‘Nifer i Fyny!’ er mwyn cyrraedd y dysgwyr y mae’n fwyaf anodd eu cyrraedd, sy’n cynnwys pobl ddi-waith a grwpiau eraill y nodwyd yn lleol bod angen cymorth arnynt. Nod y rhaglen hon yw gwella sgiliau rhifedd a hybu hyder ymhlith oedolion ar draws y rhanbarth.

I gyflawni hynny, cafodd Equal Education Partners ei gomisiynu i ddarparu pedwar cwrs rhifedd ar-lein. Hyd yn hyn, mae naw o gyfranogwyr wedi ennill cymhwyster Lefel 1 Agored drwy Goleg Gwent, ac mae tri wedi ennill cymhwyster Lefel 2 Sgiliau Hanfodol drwy Addysg Oedolion Cymru.

Un stori lwyddiant o’r fath yw stori Diane Wiltshire o Landrindod, a gwblhaodd y cymhwyster Sgiliau Hanfodol ac sydd ers hynny wedi dechrau ei busnes ei hun. Meddai Diane: “Mae wir wedi helpu gyda’r gorbryder yr oeddwn yn ei deimlo ynglŷn â mathemateg, ac wedi rhoi’r hwb yr oedd arnaf ei angen i fy hyder er mwyn mynd amdani gyda fy musnes. Bob tro y mae gen i broblem gyda mathemateg yn awr, boed wrth ymdrin â llif arian neu drosiant, mae gen i’r sgiliau a phethau y gallaf ddibynnu’n llwyr arnynt o’r cwrs i’w defnyddio.”

Bu’r rhaglen o fudd hefyd i ffoadur o Wcráin, a oedd am aros yn ddienw. Meddai: “Hoffwn sefydlu fy musnes fy hun a helpu fy mhlentyn gyda gwaith cartref, ac rwy’n teimlo yn awr fy mod ar y llwybr iawn i allu gwneud hynny.”

Yn ogystal â'r cyrsiau ar-lein, mae 'Nifer i Fyny!' wedi cynnal 57 o weithdai a gweithgareddau anffurfiol ar draws 11 o ganghennau llyfrgelloedd, a oedd yn cynnwys 298 o oedolion a 407 o blant. Bwriad y sesiynau hynny, sy'n cynnwys rhai am rifedd mewn Iaith Arwyddion Prydain, codio, coginio, animeiddio stop-symud, cyllidebu ar gyfer y teulu, a chymorth gyda gwaith cartref mathemateg, yw sicrhau bod dysgu yn weithgaredd hygyrch a hwyliog.

Cafodd y fenter 'Nifer i Fyny!' £122,000 o gyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar gyfer 2022-25.

I gael gwybod mwy am sut y mae 'Nifer i Fyny!' yn meithrin hyder mewn mathemateg ymhlith rhieni a gofalwyr ym Mhowys: [https://www.storipowys.org.uk/number-up?locale=cy](https://www.storipowys.org.uk/number-up?locale=cy)



*10 - Plant a rhieni yn mwynhau un o'r sesiynau animeiddio stop-symud i deuluoedd, a gynhaliwyd yn Llyfrgell Rhaeadr Gwy.*

### Mae stori'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y canolbarth yn parhau...

I gael rhagor o newyddion am brosiectau sydd wedi cael cyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, ewch i'r tudalennau Newyddion ar wefannau Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys:

[Cyngor Sir Ceredigion]()

[Cyngor Sir Powys]()

## Ydych chi'n bwriadu tyfu eich busnes?

Ymunwch â busnesau eraill Canolbarth Cymru sydd eisoes wedi rhannu eu barn! Byddwch yn rhan o'r sgwrs a chymryd rhan yn ein harolwg nawr. I gymryd rhan, ewch i: [https://bit.ly/SupportingEnterpriseSurvey](https://bit.ly/SupportingEnterpriseSurvey) (Defnyddiwch y gwymplen 'English' ar y dde i newid i'r ffurflen Gymraeg)

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

**Cefnogi Menter**
**Arolwg Anghenion Busnes**

A oes angen cymorth arnoch i ehangu eiddo masnachol?

Cwblhewch yr arolwg hwn i'n helpu i ddeall cynlluniau twf busnesau lleol yn y dyfodol a'u hangen am safleoedd masnachol.



## Cwrdd â'r Tîm - Natalie Chambers, Rheolwr Rhanbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

**Pryd wnaethoch chi ddechrau gyda'r tîm?**

*Ymunais â thîm Tyfu Canolbarth Cymru ym mis Gorffennaf 2024 pan ddychwelais i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth.*

**A allwch ddweud mwy wrthym am eich rôl?**

*Rwy'n darparu cymorth a gwasanaeth cydlynu rhanbarthol er mwyn cyflawni Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar draws rhanbarth canolbarth Cymru, gan gydweithio'n agos â thimau cyflawni lleol yng Nghyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys er mwyn rhoi rhaglen lwyddiannus ar waith ac adrodd ynghylch hynny wrth Lywodraeth y DU. Byddaf yn cwrdd yn rheolaidd ag Awdurdodau Lleol Arweiniol eraill ar draws Cymru ac ag adrannau llywodraethol i rannu'r llwyddiannau a'r cyfleoedd a gynigir gan y Gronfa.*

**Beth yw eich blaenoriaethau presennol?**

*Ar hyn o bryd, rwy'n canolbwyntio ar gynorthwyo'r timau cyflawni lleol gyda'u dull o fonitro a gwerthuso wrth i ni nesáu at ddiwedd y rhaglen, lle mae pwys ar gynllunio'r trefniadau cau a gwario'r arian mor effeithiol ag sy'n bosibl.*

*Rwyf hefyd yn edrych ar gyfleoedd a allai godi yn y dyfodol o ran cyllid, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd am yr hyn a wnaed yn dda a beth y gellid ei wella. Nid ydym yn cael cyfle bob amser i aros a gwerthuso, wrth i werthusiadau annibynnol ddigwydd ac wrth i'r rhaglen ddod i ben. Mae cynorthwyo gyda'r tasgau hyn yn cynnig cyfle gwych i adolygu. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael gwybodaeth am gyllideb Llywodraeth y DU ddiwedd y mis,*

*ac mae yna lawer o sgyrsiau'n digwydd i sicrhau bod busnesau, sefydliadau a mudiadau lleol yn gallu parhau i gael cymorth gan dîm Tyfu Canolbarth Cymru.*




**Pa ddatblygiadau ydych chi wedi'u gweld dros y blynyddoedd?**

*Mae maes yr economi ac adfywio yn eithaf newydd i fi, ond wrth weithio yn y sector cyhoeddus rwyf wedi gweld ystod o wahanol agweddau at weithio'n rhanbarthol ac ystod o wahanol ddulliau o wneud hynny. Mae strwythur tîm Tyfu Canolbarth Cymru, lle mae gwasanaeth cydlynu ac arbenigedd rhanbarthol yn cael eu cyfuno â gwaith cyflawni a dealltwriaeth leol, yn golygu ein bod yn cael y gorau o ddau fyd ac yn gweld dylanwad effeithiol. Rwy'n gobeithio gweld hynny'n parhau i ddatblygu.*

**Beth oedd eich cyflawniad mwyaf?**

*Am gwestiwn anodd … Dwi ddim yn credu bod gen i un cyflawniad amlwg. Ond mae'r ddisgyblaeth a'r cysondeb dyddiol ar raddfa lai, yr wyf yn eu cyfrannu i bopeth sy'n creu'r cyflawniadau mwy o faint, yn rhywbeth yr wyf wedi dod i ymfalchïo ynddo. Os nad ydych yn gwneud y pethau bach bob dydd, allwch chi ddim disgwyl cyflawni'r pethau mawr.*

*Rhedais ambell uwchfarathon yn 2022 i godi arian a chodi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ac o atal hunanladdiad. Roeddwn yn falch o'r holl sgyrsiau a ysgogwyd gan hynny ac o'r arian a godwyd, ond y cyflawniad oedd mynychu'r holl sesiynau rhedeg yr oedd yn rhaid iddynt ddigwydd cyn i fi gyrraedd llinell gychwyn y ras.*

**Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:**

*Egnïol – mae brwdfrydedd ac angerdd y tîm mor heintus. Mae bod yn rhan o dîm mor ysbrydoledig yn gwneud i fi ymdrechu'n galetach, meddwl yn fwy craff a bod yn awyddus i gyfrannu ymhellach i lwyddiant y tîm.*




## Newyddion eraill

### Rownd newydd o gyllid gan Fagloriaeth Technoleg Bwyd-Amaeth

🚀Newyddion Cyffrous, mae'r rownd newydd o gyllid gan Fagloriaeth Technoleg Bwyd-Amaeth ar AGOR NAWR! 🎉Gall busnesau bach a micro wneud cais am grantiau rhwng £25,000 a £100,000 i yrru arloesi. Gwnewch gais yma.



# Gwobrau Busnes Powys

## Dathlu Llwyddiant Busnes Powys ac Ymgysylltu â Sgiliau Rhanbarthol

Roedd Gwobrau Busnes Powys diweddar nid yn unig yn ddathliad o ragoriaeth busnes ond hefyd yn foment gyffrous i Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (PSRh). Agorodd y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys, y digwyddiad drwy groesawu'r mynychwyr a thynnu sylw at y rôl hanfodol y mae busnesau yn ei chwarae yn economi'r rhanbarth. Roedd ei neges yn glir: dylai busnesau ym Mhowys ymgysylltu'n weithredol â'r rhwydwaith o grwpiau clwstwr PSRh. I'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan eto, does dim amser gwell i ddechrau arni—ewch i'n gwefan i ddarganfod sut y gallwch elwa.

Roedd y digwyddiad yn arddangosfa wych i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gydag Emma Thomas, Cadeirydd PSRh Canolbarth Cymru, yn gwasanaethu fel un o'r beirniaid. Cafodd Emma yr anrhydedd o feirniadu gwobr allweddol, Gwobr Datblygiad y Bobl a noddir gan Grŵp Colegau NPTC, a ddyfarnwyd i EOM Electrical Contractors Ltd, Y Drenewydd. Cyflwynodd Emma hefyd y Wobr Technoleg ac Arloesi, a noddir gan Brifysgol Aberystwyth, a ddyfarnwyd i Atherton Bikes o Fachynlleth. Yn ddiweddar yn ehangu eu gweithrediadau, mae Atherton Bikes wedi bod yn gwneud penawdau gyda'u harloesedd yn y diwydiant beicio.

Wrth edrych yn ôl ar y digwyddiad, dywedodd Emma Thomas:

*"Dangosodd Gwobrau Busnes Powys yn wirioneddol ystod a chryfder anhygoel busnesau ar draws y rhanbarth. Roedd yn ysbrydoledig gweld cymaint o fentrau arloesol a llwyddiannus yn cael eu dathlu. Rwy'n gobeithio y bydd llawer o'r busnesau dan sylw, yn ogystal ag eraill ledled y rhanbarth, yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i gryfhau darpariaeth sgiliau ymhellach, cynyddu cyfleoedd cyflogaeth a sbarduno llwyddiant yn y dyfodol. Drwy gydweithredu, gallwn sicrhau bod Canolbarth Cymru yn parhau i ffynnu a thyfu."*

Amlygodd y digwyddiad sut y gall cydweithio rhwng busnesau a'r PSRh helpu i yrru arloesedd, datblygu sgiliau, a llwyddiant yn y Canolbarth yn y dyfodol. Os nad yw'ch busnes yn ymwneud â'r PSRh eto, ewch i'n gwefan heddiw i ddysgu mwy a chysylltu â'n grwpiau clwstwr.

Cadwch lygad am ddatblygiadau mwy cyffrous wrth i ni barhau i gefnogi busnesau a meithrin talent yng Nghanolbarth Cymru.




*11 - Emma Thomas, Cadeirydd PSRh Canolbarth Cymru, ag enillwyr  y Wobr Technoleg ac Arloesi, Atherton Bikes o Fachynlleth.*




*12 - Y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys*




*13 - Emma Thomas, Cadeirydd PSRh Canolbarth Cymru*

## Gwobrau Caru Ceredigion Awards 2024 - Yr alwad olaf am enwebiadau ar gyfer gwobrau cymunedol a busnes Ceredigion

Heddiw, mae’r ceisiadau’n cau, gyda’r gwobrau’n cydnabod cyfraniadau a llwyddiannau eithriadol busnesau, prosiectau cymunedol, ac unigolion ar draws y Sir.

Mae’r gwobrau’n cynnwys 12 categori, yn amrywio o arloesi yn y gymuned, i gydnabod entrepreneuriaid ifanc, y diwydiant twristiaeth, digwyddiadau llwyddiannus, a busnesau sy’n cefnogi’r Gymraeg.

Mae'r rhestr lawn o gategorïau a meini prawf cymwys i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Bydd y beirniadu’n digwydd ym mis Tachwedd gan banel o feirniaid arbenigol, gyda rhestr fer yn cael ei chyhoeddi cyn i’r enillwyr gael eu datgelu mewn seremoni ar 12 Rhagfyr 2024. Manylion pellach yma: [www.ceredigion.gov.uk/busnes/gwobrau-caru-ceredigion/](www.ceredigion.gov.uk/busnes/gwobrau-caru-ceredigion/)




### Llefydd yng Nghanolbarth Cymru yn dechrau gweld manteision band eang ffeibr llawn

🚀 Newyddion cyffrous i'r Canolbarth! Mae trigolion Llanbrynmair eisoes yn mwynhau manteision band eang ffeibr llawn diolch i @Openreach, gan gysylltu 920 eiddo drwy Gynllun Talebau Band Eang Gigadid. 🎉

Ond dim ond y dechrau yw hynny! Mae 12 o brosiectau talebau eraill ar y gweill ar draws Canolbarth Cymru ar hyn o bryd, a bydd yn cysylltu dros 6,000 o gartrefi!

Mae Rhaglen Ddigidol Bargen Twf Canolbarth Cymru yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi prosiectau fel y rhain, gan ysgogi cysylltedd a gwella mynediad digidol ar draws y rhanbarth.

Gall trigolion Aberriw, Aberteifi, Ceri, Llandysul, Llanrhaeadr, Llanwrtyd, Llyswen, Maesyfed Newydd, Rhydlewis, Tregaron, a Thregynon addo eu talebau a helpu i wella cysylltedd yn eu cymunedau trwy ymweld â Connect my Community.

Os nad yw eich cymuned wedi'i rhestru, bydd camau adeiladu pellach yn parhau o dan Raglen Gigadid Llywodraeth y DU, gan ddechrau yn 2025.

Ar hyn o bryd, mae gan dros 50% o'n rhanbarth eisoes gysylltiadau ffeibr i'r safle sydd ar gael. Gall preswylwyr sydd â diddordeb mewn uwchraddio i ffeibr llawn wirio eu argaeledd trwy: Ultrafast Full Fibre Broadband | Openreach

Gadewch i ni wneud Canolbarth Cymru yn bwerdy digidol! 💪💻

## Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad:  Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales